Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

20/11/2025

# Cefndir

Yn y papur hwn cyflwynir tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion ar gyfer gwariant yn ymwneud â'r cyllidebau yn y portffolio Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd yr Amgylchedd o fewn Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft cam 2 a gyhoeddwyd ar 03 Tachwedd 2025.

Yn Atodiad A ceir dadansoddiad o'r ffigurau perthnasol o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer maes Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd yr Amgylchedd o fewn Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL). Adlewyrchir y ffigurau hyn yn y tabl isod.

# Cynnwys

**Dyraniadau'r Gyllideb ....5**

Cyffredinol .... 7

Deddfwriaeth .... 10

Amgylchedd .... 12

Newid Hinsawdd .... 24

Cyfoeth Naturiol Cymru .... 27

**Atodiad A – Dyraniadau yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) .... 31**

BEL 2230 – Llifogydd a Dŵr .... 32

BEL 2232 – Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr .... 33

BEL 2825 – Bioamrywiaeth a Thystiolaeth .... 34

BEL 2814 - Rheolaeth Amgylcheddol (Pwllperian) (Heb Fod yn Arian Parod) .... 34

BEL 2802 – Diogelu a Rheoleiddio Planhigion a Bywyd Gwyllt .... 34

BEL 2827 – Coedwigaeth .... 36

BEL 2827 – Coedwigaeth (Heb Fod yn Arian Parod) .... 36

BEL 2490 – Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad .... 37

BEL 2195 – Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi .... 38

BEL 2820 – Lleoedd Lleol ar gyfer Natur .... 39

BEL 2190 – Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol .... 40

BEL 2451 – Cyfoeth Naturiol Cymru .... 42

BEL 2817 – Diogelu'r Amgylchedd (Ymbelydredd ac Atal Llygredd gynt) .... 43

BEL 2809 – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru .... 45

BEL 3771 – Gweithredu ar Newid Hinsawdd .... 45

BEL 2807 – Gweithredu ar Newid Hinsawdd .... 46

**Atodiad B – Dadansoddiad manwl o ddyrannu Drafft Cyllideb 2026-27 ar lefel BEL .... 49**

## Dyraniadau'r Gyllideb

1. Y Gyllideb Ddrafft yw man cychwyn proses gyllidebol Llywodraeth Cymru - nid ei diwedd. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi'i hadeiladu ar sylfaen gadarn cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys £1.6bn o ymrwymiadau gwariant newydd, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddechrau cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–27. Mae'n dyrannu 98.6% o'r cyllid sydd ar gael, gan adael lle i fuddsoddi pellach ym mlaenoriaethau Cymru erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr. Ein huchelgais gadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae'r llywodraeth yn parhau i fod yn agored i gydweithio â phleidiau eraill y Senedd i gytuno ar gyllideb, gan bwysleisio'r cydgyfrifoldeb i basio cyllideb er budd dinasyddion Cymru.

2. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau wedi'u crynhoi ar lefel uchel yn ôl maes busnes ar gyfer y portffolio Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025.

# Refeniw

| BEL Rhif | Disgrifiad o'r BEL | £000 Cyllideb Derfynol 2025-26 wedi'i hailddatgan | £000 Newidiadau | £000 Cyllideb Ddrafft 2026-27 | % newid |
|---|---|---|---|---|---|
| 2812 | Deddfwriaeth, Gweithredu, Llywodraethiant a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd | 1,984 | 907 | 2,891 | 46% |
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 4,170 | 80 | 4,250 | 2% |
| 2807 | Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd | 200 | 4 | 204 | 2% |
| 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 6,738 | 67 | 6,805 | 1% |
| 3771 | Camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd | 3,814 | 53 | 3,867 | 1% |
| 2230 | Rheoli Perygl Llifogydd a Chyflenwi Polisi Dŵr | 2,999 | 570 | 3,569 | 19% |
| 2195 | Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 500 | 10 | 510 | 2% |
| 2825 | Bioamrywiaeth a Thystiolaeth | 11,525 | (454) | 11,071 | -4% |
| 2827 | Coedwigaeth | 6,436 | 105 | 6,541 | 2% |
| 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 2,650 | 53 | 2,703 | 2% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 103,487 | 1,848 | 105,335 | 2% |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 35,848 | 667 | 36,515 | 2% |
| 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 13,376 | 298 | 13,674 | 2% |
| 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 3,878 | 6,000 | 9,878 | 155% |
| 2875 | Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu | 2,364 | 48 | 2,412 | 2% |
| 2802 | Diogelu a Rheoleiddio Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd | 1,418 | 682 | 2,100 | 48% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau – Bron yn Arian Parod** | | **201,387** | **10,938** | **212,325** | **5%** |

## Cyfalaf

| BEL Rhif | Disgrifiad o'r BEL | £000 Cyllideb Derfynol 2025-26 wedi'i hailddatgan | Newidiadau | £000 Cyllideb Ddrafft 2026-27 | % newid |
|---|---|---|---|---|---|
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 12,000 | - | 12,000 | 0% |
| 2807 | Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd | 1,052 | - | 1,052 | 0% |
| 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 2,686 | - | 2,686 | 0% |
| 2230 | Rheoli Perygl Llifogydd a Chyflenwi Polisi Dŵr | 30,021 | 3,478 | 33,499 | 12% |
| 2825 | Bioamrywiaeth, Tystiolaeth a Mawndiroedd | 12,500 | (1,000) | 11,500 | (8%) |
| 2802 | Diogelu a Rheoleiddio Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd | 0 | 5,200 | 5,200 | 100% |
| 2827 | Coedwigaeth | 9,310 | - | 9,310 | 0% |
| 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 12,564 | - | 12,564 | 0% |
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 27,806 | - | 27,806 | 0% |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 41,853 | (4,200) - | 37,653 | (10%) |
| 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 8,900 | - | 8,900 | 0% |
| 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 15,217 | 25,000 | 40,217 | 164% |
| **Cyfanswm yr Adnoddau – Cyfalaf** | | **173,909** | **28,478** | **202,387** | **16%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 0 | 10,200 | 10,200 | **100%** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau – Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** | | **0** | **10,200** | **10,200** | |

## Cyffredinol

3. Fy nod yw sicrhau y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, mynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau llygredd. Er mwyn gwneud hyn, mae'r gyllideb yn fy ngalluogi i fwrw ati i weithredu ar y blaenoriaethau canlynol:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd er mwyn creu dyfodol tecach a diogelach a sicrhau swyddi gwyrdd.
- Cymryd camau i ddiogelu ac adfer natur yng Nghymru a chysylltu pobl â'r byd naturiol.
- Creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer y sector bwyd, pysgodfeydd a ffermio yng Nghymru.
- Gwella iechyd a llesiant ein cymunedau drwy leihau gwastraff a llygredd, a defnyddio dulliau rheoleiddio i ysgogi arloesedd, creu marchnadoedd a chadw pobl yn ddiogel.
- Gwella iechyd a lles anifeiliaid.

4. Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn flaenoriaeth i bob aelod o'r Cabinet. Yn fy mhortffolio fy hun, rwy'n parhau i ariannu'r capasiti canolog sydd ei angen i alluogi pob rhan o Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni ein cyllidebau carbon. Mae hyn yn hanfodol i gyflawni ein dull cyffredinol o ddatgarboneiddio. Yn yr un modd, mae'r tîm addasu i'r hinsawdd yn cefnogi gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i sicrhau y gallwn wrthsefyll newid hinsawdd.

5. Rwyf hefyd yn parhau i ariannu Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyngor a chymorth hollbwysig i gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithio tuag at ein huchelgais gyffredin i sicrhau sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030.

6. Mae Economi Gylchol wedi cael cyllid adnoddau ychwanegol i barhau i adeiladu ar berfformiad Cymru sy'n arwain y byd ym maes ailgylchu ac i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o sicrhau bod adnoddau a deunyddiau yn parhau i gael eu defnyddio cyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff. Mae'r gostyngiad mewn cyfalaf yn adlewyrchu proffil prosiectau Awdurdodau Lleol yn 2025/26.

7. Rwy'n parhau i fuddsoddi mewn diogelu'r amgylchedd, gan leihau effaith peryglon amgylcheddol ar iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r buddsoddiad i sicrhau diogelwch tomenni glo drwy ddarparu cyllid wedi'i glustnodi ac, ar gyfartaledd, gynnydd chwyddiannol o 2% i bob maes, gyda chynnydd pellach o £3.5m mewn cyllid i wella ansawdd dŵr a buddsoddiad parhaus mewn gweithgarwch rheoli perygl llifogydd.

8. Mae buddsoddiad mewn adfer natur, mynediad i gefn gwlad, mannau gwyrdd a chysylltu cymunedau â natur yn parhau.

9. Caiff y Gyllideb ar gyfer Diogelwch Tomenni Glo ei chynyddu'n sylweddol o £37m i £40m (gan gynnwys y buddsoddiad cyfalaf o £25m mewn tomenni glo yn 2026-27 gan Lywodraeth y DU), sy'n adlewyrchu'r flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth hon wedi'i rhoi i sicrhau diogelwch ein cymunedau.

10. Mae diogelwch cronfeydd dŵr hefyd o'r pwys pennaf o ystyried y risgiau os na chânt eu cynnal a'u cadw a goblygiadau rhagamcanol cyllidebol yn y dyfodol ar gyfer newidiadau i'r hinsawdd yng Nghymru. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y dyraniadau cyllidebol gyda £4.9m yn cael ei darparu ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr.

11. Rwyf hefyd wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer partneriaid cyflawni, gan gynnwys cynnydd chwyddiannol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Parciau Cenedlaethol, gan gydnabod y rôl hollbwysig y maent yn ei chwarae o ran cyflawni a'r pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu.

12. Rwyf wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn gweithgarwch rheoli perygl llifogydd i £80 miliwn ar gyfer 2026-27. Hwn yw'r dyraniad blynyddol mwyaf hyd yma, sydd wedi cynyddu o £77 miliwn y llynedd, ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddiogelu cymunedau ledled Cymru rhag bygythiad cynyddol llifogydd. Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei buddsoddiad mwyaf erioed mewn prosiectau i reoli perygl llifogydd, gan neilltuo mwy na £377 miliwn i leihau risgiau i gymunedau ledled Cymru.

# Ymrwymiadau blaenorol o'r gwaith craffu a wnaed ar gyllideb 2025/26

13. Mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu parhad clir ymrwymiadau a wnaed mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, yn arbennig mewn perthynas ag adfer bioamrywiaeth a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd.

14. Mae buddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru yn y rhaglen hon – ochr yn ochr ag arian cyfatebol gan bartneriaid allanol – yn dangos dull cyson o gefnogi gweithgarwch adfer rhywogaethau ac ecosystemau ac ymgysylltu â'r gymuned.

15. Yn unol ag argymhellion o gylchoedd craffu blaenorol, rydym wedi parhau â'r cyllid ar gyfer gweithgarwch datblygu polisi seiliedig ar dystiolaeth a monitro statudol, yn ogystal â mecanweithiau cyflawni sy'n cefnogi Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a datganiad y Senedd o argyfwng natur.

16. Er gwaethaf cyfyngiadau cyllidol, mae'r gyllideb ddrafft yn cadw at ymrwymiadau blaenorol drwy ddiogelu rhaglenni bioamrywiaeth craidd a galluogi parhad darpariaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod, fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, nad ychwanegiad dewisol yw adfer natur ond, yn hytrach, ei fod yn elfen sylfaenol o economi werdd gadarn. Felly, mae ein dyraniadau wedi'u strwythuro er mwyn sicrhau nad yw buddsoddiadau blaenorol yn cael eu tanseilio a bod y momentwm yn parhau tuag at gyflawni targedau amgylcheddol Cymru ar gyfer 2030 a 2050.

17. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau diogelwch tomenni glo ers tirlithriad Tylorstown.

18. Mae'r gyllideb ddrafft yn adeiladu ar y cynnydd hwn a bydd yn darparu'r lefelau uchaf erioed o gyllid er mwyn galluogi parhad rhaglen a ariennir sy'n rhoi cyllid grant i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddynt gwblhau gweithgareddau cynnal a chadw ac adfer ar domenni glo cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod mewn cyflwr lle mae'r risg o lithriad yn cael ei rheoli a'i lleihau.

19. Bydd cyllid hefyd yn helpu i dalu costau gweithredu'r Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a fydd yn sefydlu Awdurdod Statudol newydd o fis Ebrill 2027.

20. Mae'r Gyllideb Forol ar gyfer 2026/27 yn adlewyrchu ein hymrwymiadau i gwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig drwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol a sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r cyllid ar gyfer yr adolygiad o'r Rhwydwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, fel

yr argymhellwyd gan adroddiad craffu 25/26 y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

21. Rwyf wedi crynhoi'r dull gweithredu, wedi'i grwpio o dan y penawdau yn adroddiad y Pwyllgor.

## Deddfwriaeth

## Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

22. Caiff cyllid ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth a datblygu deunyddiau cyfathrebu er mwyn cefnogi cychwyn y gwaharddiadau ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastigion (18 Rhagfyr 2026).

## Cyflwyno Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle

23. Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer y cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig ar gyfer pecynwaith a'r cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diod. Mae diwygiadau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig yn cael eu rhoi ar waith ledled y DU gyfan, gyda mewnbwn helaeth gan bolisi a gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Caiff rheoliadau'r cynllun dychwelyd ernes eu gwneud ar sail Cymru yn unig.

## Y Ddeddf Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli)

24. Mae'r gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2026-27 yn cynnwys £5.1m tuag at wariant gweithredu er mwyn sicrhau y gall gwaith barhau i baratoi ar gyfer sefydlu'r Corff Statudol newydd ar 1 Ebrill 2027.

25. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi'i gwblhau fel rhan o'r Ddeddf. Mae hyn yn darparu costiadau manwl ar gyfer sefydlu'r Awdurdod, gan gynnwys costau staffio,

yn ogystal â'r costau rhedeg unwaith y bydd yr Awdurdod yn mynd yn fyw, ar 1 Ebrill 2027.

## Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

26. Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r Ddeddf.

27. Mae cyllid penodol yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf, sy'n cynnwys grant blynyddol gwerth £1 filiwn ar gyfer Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol sy'n helpu awdurdodau lleol i sicrhau gwelliannau mewn ansawdd aer yn lleol. Rydym wedi bod yn ymgynghori ar y fersiwn ddrafft o Hyrwyddo Ymwybyddiaeth o'r Cynllun Cyflawni Llygredd Aer, y byddwn yn ei chyhoeddi ar ddechrau 2026. Bydd cyllid hefyd yn ei gwneud yn bosibl i'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni gael eu rhoi ar waith, sy'n cynnwys annog newid yn ymddygiad y cyhoedd ac ymgysylltu mewn perthynas â meysydd megis segura llonydd a llosgi domestig.

28. Rydym hefyd wedi bod yn ymgynghori ar reoliadau drafft i gyflwyno ystod o gosbau penodedig ar gyfer segura llonydd. Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, byddwn yn gwneud rheoliadau cyn diwedd tymor y Senedd. Caiff y rhain eu hategu gan ganllawiau wedi'u diweddaru i Awdurdodau Lleol.

## Bil ar Lywodraethiant Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth

29. Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ym mis Mehefin 2025. Mae'r Bil yn mynd drwy broses graffu'r Senedd ar hyn o bryd gyda cham un yn cael ei gwblhau ar ddechrau mis Tachwedd a disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2026.

30. Mae'r Bil yn cefnogi'r ymrwymiad yn y **Rhaglen Lywodraethu** i “weithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth”.

## Amgylchedd

# Cyflawni Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

31. Mae cyllideb wedi'i dyrannu i gefnogi'r gwaith o weithredu ar argymhellion yr archwiliad dwfn a helpu i gyflawni'r targed 30x30, sy'n gosod y sylfeini ar gyfer uchelgais Cymru i atal colli bioamrywiaeth a'i wrthdroi. Rydym yn cymryd camau cydgysylltiedig a arweinir gan dystiolaeth i ehangu a gwella ardaloedd gwarchodedig, a ategir gan fuddsoddiad parhaus a chydweithio cadarn ar lefel genedlaethol. Yn ogystal â diogelu natur, mae'r dull hwn o weithredu yn dod â manteision hirdymor o ran yr hinsawdd, yr economi a llesiant, sy'n sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn strategol ac yn cael effaith sylweddol.

32. Rydym yn ymrwymedig i ehangu ac atgyfnerthu rhwydwaith Cymru o ardaloedd gwarchodedig er mwyn cynrychioli cynefinoedd a rhywogaethau allweddol yn well. Mae Fframwaith 30x30 i Gymru yn nodi meini prawf clir ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig a Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal, sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cyfrannu at rhwydwaith ecolegol gwydn a chydgysylltiedig.

33. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hon, caiff cyllid wedi'i dargedu ei gyfeirio at y gwaith o nodi a datblygu mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal a'u rheoli yn yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn dull piblinell sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarpar safleoedd gael cymorth ac adnoddau i fodloni'r meini prawf llawn i gael eu cydnabod.

34. Mae £500K yn parhau i fod ar gael er mwyn cefnogi'r gwaith o brif ffrydio bioamrywiaeth. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys parhau i gyflwyno rhaglenni meithrin gallu, megis hyfforddiant Nabod Natur sydd wedi cael ei ddiweddaru, a chyflawni rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Caiff gweithgarwch ymgysylltu mewnol a chyhoeddus ei wella drwy ddigwyddiadau megis Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (Hydref 2025). Bydd prosiectau megis cynllun peilot Gwastadeddau Gwent yn cryfhau arweiniad ar fioamrywiaeth er mwyn sicrhau bod llai o dresmasu ar safleoedd gwarchodedig gan waith datblygu. Bydd cydweithio â Thrysorlys Cymru o dan Gynllun Gwella'r Gyllideb yn ymgorffori ystyriaethau o ran bioamrywiaeth ymhellach mewn prosesau gwneud penderfyniadau ariannol.

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur a Datblygu targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer Bioamrywiaeth

35. Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur (https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur) sy'n ymwneud â diogelu ein cynefinoedd a'n rhywogaethau o'r pwysigrwydd mwyaf a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth.

36. Bydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn cael budd o gyllid drwy'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur a fydd yn parhau i gael ei chyflwyno yn 2026/27 gan helpu i gyflawni ein targed 30x30. Mae'n allweddol i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig ar y tir ac ar y môr, gan greu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a fydd yn galluogi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n wynebu'r perygl mwyaf i ffynnu. Bydd hefyd yn helpu i gynnig profiad o fyd natur ble bynnag y mae pobl yn byw drwy ymgysylltu â chymunedau lleol gan ddod â manteision o ran ein hiechyd a'n llesiant yn ogystal â'n hamgylchedd. Bydd trefniadau monitro a gwerthuso cadarn yn rhan annatod o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

37. Caiff targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer bioamrywiaeth eu datblygu os caiff Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) ei basio gan y Senedd. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddatblygu i ategu'r Bil. Mae'r asesiad hwn yn darparu costiadau amcangyfrifedig cychwynnol a fydd yn cwmpasu'r targedau statudol newydd. Ni ddisgwylir effaith ariannol lawn y targedau hyn tan ar ôl i'r Bil gael ei basio gan y Senedd, a fyddai'n debygol o olygu blwyddyn ariannol 2026-27. Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol ychwanegol ei lunio ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen unwaith y bydd y targedau wedi'u datblygu.

## Rhaglen Rhwydweithiau Natur

38. Bydd y dyraniad hwn yn ein galluogi i barhau i gyflwyno'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gan weithio gyda thirfeddianwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ac annog ymgysylltu â'r gymuned er mwyn rhoi mesurau ar waith a fydd yn mynd i'r afael â'r argyfwng natur a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i amgylchedd Cymru. Mae mwy na £54m wedi'i fuddsoddi hyd yma yn y Cynllun Rhwydweithiau Natur ers 2021.

# Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

39. Mae'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi bod yn cyflawni'n llwyddiannus ers iddi gael ei lansio bum mlynedd yn ôl. Crynhoir rhai uchafbwyntiau isod.

Tabl 1 – Prif Allbynnau Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2020-2025.

| Prif Allbwn | Cyfansymiau 2020/21 - 2024/25 |
|---|---|
| **Mannau Gwyrdd a Grëwyd neu a wellwyd yn sylweddol** | 5,446 |
| **Dolydd ac ymylon ffordd sy'n cynnal bywyd gwyllt gydag arferion torri glaswellt newydd** | 1,422 |
| **Perllannau cymunedol a grëwyd** | 1,702 |
| **Prosiectau tyfu cymunedol** | 1,906 |
| **Gwirfoddolwyr a Gynhwyswyd** | 31,738 |
| **Coed a blannwyd (trefol, coetir trwchus bach, ymylon ffordd, parcdir)** | 650 o hectarau adroddadwy |

40. Mae gwerth ac effaith y rhaglen wedi'u cydnabod drwy ddarparu lefel sylweddol o fuddsoddiad parhaus yn 2026/27 gyda refeniw gwerth £2.5m a chyfalaf gwerth £12.5m yn cael eu dyrannu i'r cynlluniau eleni. Bydd y lefel hon o gyllid yn ein galluogi i barhau â'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad drwy gefnogi prosiectau natur lleol.

41. Mae gwerthusiad o'r rhaglen wrthi'n cael ei gynnal a bydd yn edrych ar effaith gymdeithasol y cynlluniau dros y pum mlynedd diwethaf. Cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Mehefin 2025 a disgwylir i adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2025.

# Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

42. Ers 2020, mae'r **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd** wedi adfer mwy na 3,600 hectar o fawndir ac wedi gwella'r cynefin ar draws 8,000 hectar arall. Amcangyfrifir bod hyn wedi diogelu 2.2 miliwn o dunelli o garbon wedi'i storio ac wedi lleihau allyriadau blynyddol o'r cynefin hollbwysig hwn.

43. Mae adfer mawndir yn cynnwys atgyweirio'r lefel trwythiad; gan ddod â hi yn nes at yr wyneb am ran helaeth o'r flwyddyn. Mae arwyddion cynnar yn dangos sut mae

mawndiroedd wedi'u hailwlychu yn helpu i atal a lleihau effeithiau tanau gwyllt: **Cyfoeth Naturiol Cymru / Arwyddion bod mawndir gwlyb wedi cyfyngu llediad tanau gwyllt!**

44. Mae'r Rhaglen ar gyfer 2026/27 yn ceisio cynnal ei adnoddau a'i allu i gyflawni gyda buddsoddiad gwerth mwy na £5m er mwyn helpu i roi argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ar waith.

# Natur am Byth

45. Natur am Byth yw rhaglen adfer rhywogaethau flaenllaw Cymru, sydd ar waith rhwng 2023 a 2027 dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth â naw elusen amgylcheddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arian cyfatebol gwerth £200,000 y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen.

46. Mae'r buddsoddiad wedi helpu i gefnogi 11 o brosiectau sy'n seiliedig ar le ledled Cymru, gan dargedu 67 o rywogaethau sydd dan fygythiad. Mae'r rhaglen wedi creu 20 o swyddi a chynlluniau i hyfforddeion, yn ogystal â chynnal gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, cyflwyno mentrau gwyddoniaeth i ddinasyddion ac adfer cynefin.

# Rhaglenni monitro ar gyfer bioamrywiaeth

47. Mae gweithgarwch monitro effeithiol a fforddiadwy a thystiolaeth yn hanfodol i olrhain ein cynnydd tuag at darged 30x30 a'n huchelgais natur-bositif tymor hwy.

48. Cynhelir gwahanol raglenni monitro bioamrywiaeth gyda chymorth uniongyrchol gan, neu ar ran, Llywodraeth Cymru, sy'n ein galluogi i adrodd ar statws bioamrywiaeth yng Nghymru e.e. drwy'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2026. Mae elfennau allweddol o'n fframwaith monitro bioamrywiaeth presennol yn cynnwys Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd, system Arsylwi'r Ddaear Cymru Fyw, monitro rhywogaethau dangosol allweddol drwy raglenni goruchwyliaeth y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur/rhaglenni goruchwyliaeth dinasyddion a arweinir gan wyddoniaeth a'r rhaglen Monitro Safonau Cyffredin a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd gwarchodedig.

49. Rydym yn cydweithio ledled y DU i ddatblygu fframwaith monitro cadarn, wedi'i ategu gan ddangosyddion clir er mwyn olrhain cynnydd a llywio camau gweithredu tuag at darged 30x30. Elfen allweddol o'r gwaith hwn yw datblygu a gweithredu'r dangosydd Effeithiolrwydd Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig a Chadwraeth (MEPCA) y cydnabyddir ei fod yn adnodd hollbwysig ar gyfer asesu pa mor dda y mae ardaloedd gwarchodedig a chadwraeth yn cyflawni dros fioamrywiaeth.

50. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn darparu cyllid ar gyfer datblygu a chyflwyno MEPCA yng Nghymru. Bydd MEPCA hefyd yn cyfrannu at gyfres newydd o ystadegau swyddogol sy'n cwmpasu'r DU gyfan, gan helpu i sicrhau dulliau adrodd cyson a thryloyw ar ganlyniadau bioamrywiaeth ym mhob un o bedair gwlad y DU.

51. Fel rhan o'r ymdrech ehangach hon, byddwn hefyd yn cynnal gwerthusiadau o swyddogaethau'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol a'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi gweithgarwch monitro a chyflawni bioamrywiaeth effeithiol.

## Datblygu dull o ymdrin â buddsoddiad preifat ar gyfer natur

52. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull newydd o ymdrin â chyllid cynaliadwy ar gyfer adfer byd natur. Bwriedir i'r dull hwn gynyddu ac amrywio'r cyllid sydd ar gael er mwyn inni allu mynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n ysgogi colli bioamrywiaeth yn effeithiol – gan gynnwys newid hinsawdd, llygredd a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd anghynaliadwy.

53. Gallai marchnadoedd ar gyfer natur a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae natur yn eu darparu fanteisio ar alluoedd ac adnoddau'r sector cyhoeddus i ddefnyddio cyfalaf yn effeithlon ac annog yr arloesi sydd ei angen. Ond mae'n rhaid i farchnadoedd amgylcheddol fod wedi'u cynllunio'n dda a chael eu rheoli'n effeithiol er mwyn atal 'gwyrddgalchu' a sicrhau eu bod yn meddu ar lefel uchel o uniondeb, yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol gwirioneddol ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol a dod â manteision iddynt.

54. Mae meithrin ein gallu yng Nghymru i ymgysylltu â buddsoddiad preifat yn allweddol i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer natur. I'r perwyl hwn, rydym yn parhau i ariannu dwy rôl yng Nghronfa Forol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Y Bannau).  Bydd y rolau hyn yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyllid ar gyfer adfer natur drwy archwilio marchnadoedd gwasanaethau ecosystemau uniondeb uchel a'u rhoi ar waith a rhannu'r wybodaeth hon â'n hawdurdodau parc cenedlaethol eraill.

55. Nod Cronfa Forol Cymru yw buddsoddi mewn rhaglenni a phrosiectau sy'n galluogi, yn cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau morol ac arfordirol yn yr hirdymor, gan hwyluso'r gwaith o sicrhau manteision ehangach i unigolion, cymunedau a busnesau. Y bwriad yw sicrhau y bydd y Gronfa ar agor i dderbyn rhoddion ar ddechrau 2026.

## Cyflawni'r strategaeth economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, gan gynnwys datblygu a chyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes i Gymru

56. Bydd y cyllid yn parhau i lywio'r broses o roi strategaeth economi gylchol Cymru ar waith, sydd eisoes wedi helpu'r wlad i sicrhau cyfraddau ailgylchu sy'n arwain y byd, sydd bellach yn yr ail safle yn fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth drwy'r Gronfa Economi Gylchol, gan alluogi Awdurdodau Lleol i wella gwasanaethau ailgylchu a datgarboneiddio ac ehangu cyfleusterau ailddefnyddio ac atgyweirio. Mae hefyd yn helpu busnesau i newid i arferion mwy cynaliadwy, megis ymgorffori deunyddiau wedi'u hailgylchu yn eu prosesau.
57. At hynny, mae'r cyllid yn ategu'r gwaith o gyflwyno diwygiadau polisi allweddol gan gynnwys y cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer pecynwaith, y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle, y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes i Gymru a system olrhain gwastraff ddigidol.
58. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Cynllun Dychwelyd Ernes o gyllidebau rhaglenni presennol ac mae wedi cyflymu'r broses o'i roi ar waith er mwyn cyd-fynd â gweddill y DU, gan sicrhau'r gallu i ryngweithredu rhwng deunyddiau cyffredin. Mae'r dull hwn o weithredu yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno trefniadau ailddefnyddio ac yn sicrhau bod y cynllun yn addas at y dyfodol er mwyn sicrhau manteision hirdymor i Gymru.

## Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys diweddariad ar fframwaith rheoli a chynllun gweithredu'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a'r broses o'u rhoi ar waith

59. Yn 2025/26, dyfarnodd grant yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig gyllid ar gyfer amrywiaeth o brosiectau i ddarparu tystiolaeth er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r pwysau sydd ar y rhwydwaith, a fydd yn helpu i flaenoriaethu camau rheoli allweddol yn y dyfodol. Roedd prosiectau eleni yn amrywio o fonitro aelodau o deulu'r morfil ym Mae Ceredigion, cadw gwyliadwriaeth ar ffliw adar ar Ynys Gwales a datblygu cynllun

gweithredu Cymru ar gyfer morfeydd heli. Mae cyllid hefyd wedi cefnogi prosiectau hollbwysig megis 'Biosecurity for Life', sy'n cyflawni cynllun rheoli a chamau gweithredu er mwyn sicrhau bod ein Hardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar yn parhau i fod yn rhydd rhag ysglyfaethwyr a chyllid i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

60. Er mwyn sicrhau bod y fframwaith rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn addas at y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o'r fframwaith sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cysylltu â rhanddeiliaid â diddordeb er mwyn casglu safbwyntiau ar briodoldeb y fframwaith a'r egwyddorion rheoli sy'n llywio arferion gorau ar gyfer rheoli ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd y safbwyntiau hyn yn hanfodol am fod y fframwaith rheoli yn llywio ein cynllun grant a'r ffordd rydym yn ariannu prosiectau yng Nghymru.

## Asesu'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a nodi bylchau ynddo, gan gynnwys gwelliannau i'r sail dystiolaeth er mwyn llywio'r broses o ddynodi Parthau Cadwraeth Morol eraill yn nyfroedd Cymru

61. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'w rhaglen cwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig; mae dynodiadau arfaethedig y Parthau Cadwraeth Morol yn elfen bwysig o hyn.

62. Mae swyddogion yn gweithio gyda Chyrff Cadwraeth Natur Statudol i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ategol i lywio'r broses o ddynodi safleoedd arfaethedig. Fel rhan o'r broses hon, mae'n hanfodol bod y safleoedd arfaethedig yn cael eu hasesu'n fanwl er mwyn nodi eu heffeithiau economaidd-gymdeithasol posibl drwy gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

63. Caiff iteriad cyntaf yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gwblhau yn ystod tymor y Senedd hon a bydd yn ffurfio'r llinell sylfaen a fydd yn darparu ar gyfer mireinio'r asesiad ymhellach mewn iteriad pellach yn y dyfodol unwaith y daw'n amlwg beth fydd yr opsiynau polisi penodol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu lle y gall fod bylchau posibl mewn tystiolaeth yn y fersiwn hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn nodi opsiynau i feithrin a gwella hyder. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal

adolygiad mewnol o dystiolaeth sy'n ymwneud â chadwraeth er mwyn sicrhau bod ein hyder a'n dealltwriaeth o'r safleoedd arfaethedig yn foddhaol.

## Cyllid ar gyfer cyflwyno cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd arfordir Cymru

64. Dyrannwyd cyllid yn 2025/26 er mwyn helpu'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol i nodi bylchau mewn tystiolaeth a fydd yn ein galluogi i gefnogi gweithgarwch adfer morwellt wedi'i dargedu ar hyd arfordir Cymru. Dyrannwyd cyllid hefyd drwy gynllun grant rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn datblygu rhaglen adfer morfeydd heli a chynllun gweithredu ar gyfer morfeydd heli.

65. Mae Rhwydwaith Morwellt Cymru yn rhoi'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol ar waith ac mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu Rhwydwaith a Chynllun Gweithredu Morfeydd Heli Cymru.

66. Drwy'r ddau brosiect, mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu bellach wedi'i gwblhau.

## Gwella ansawdd dŵr, gan gynnwys cymorth ar gyfer tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru er mwyn bwrw ymlaen â chamau gweithredu sy'n deillio o adroddiad Stantec

67. Mae ansawdd dŵr dan bwysau gan wahanol fygythiadau. Caiff prif achosion methiant o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru eu priodoli i'r sector amaethyddiaeth, gweithgarwch mwyngloddio a chwarela (gan gynnwys llygredd o fwyngloddiau metel segur), y sector trafnidiaeth, llygredd trefol a gollyngiadau'r diwydiant dŵr. Mae angen i ddull gweithredu traws-sector integredig gael ei ddatblygu a'i roi ar waith ledled Cymru er mwyn sicrhau bod ansawdd dŵr yn cael ei wella yn yr hirdymor. Gan gydnabod y pwysau hyn, yn 2025-2026 gwnaethom roi grant cyfalaf gwerth £16 miliwn i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio er mwyn gwella cydymffurfiaeth â Rheoliadau’r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 a deddfwriaeth gysylltiedig a

fydd sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr. Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu cynlluniau proffil uchel gan gynnwys y rhaglen adfer safleoedd mwyngloddio metel, sy'n cynnwys atal dymchweliadau, cynlluniau trin dŵr a dargyfeirio cyrsiau dŵr. Mae ymrwymiad tebyg wedi'i wneud ar gyfer 2026-27 er mwyn adeiladu ar y gwaith hollbwysig hwn ar ansawdd dŵr.

68. Ar ddiwedd 2023, cyhoeddodd y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd, sef partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y diwydiant dŵr a rhanddeiliaid, yr Adroddiad Tystiolaeth ar Orlifoedd Storm yng Nghymru drwy **Ddatganiad Ysgrifenedig y Gweinidog**. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad annibynnol o gostau a manteision gwahanol opsiynau polisi ar gyfer rheoleiddio gorlifoedd storm. Nid yw'n gwneud argymhellion ond yn hytrach mae'n nodi tystiolaeth gymharol ar ddulliau polisi o reoleiddio gorlifoedd storm.

69. Mae'r Adroddiad Tystiolaeth ar Orlifoedd Storm yng Nghymru yn ddarn pwysig o dystiolaeth a gomisiynwyd gan y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd, sef tasglu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr yng Nghymru a rhanddeiliaid yn y diwydiant sy'n cynnig her annibynnol o safbwynt rhanddeiliaid a defnyddwyr. Yn ei benderfyniad terfynol ym mis Rhagfyr 2024, cytunodd Ofwat ar fuddsoddiad sylweddol, gan roi blaenoriaeth i'r gorlifoedd carthffosiaeth cyfun sy'n gwneud y niwed mwyaf i'r amgylchedd.

70. Mae sicrhau dŵr o ansawdd uchel yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a dim ond un o'r camau rydym yn eu cymryd i wella ansawdd dŵr ledled Cymru yw'r camau gweithredu mewn perthynas â gorlifoedd carthffosiaeth cyfun. Fel llywodraeth, rydym yn benderfynol o bennu polisi uchelgeisiol er mwyn sicrhau y caiff ein hamgylchedd dŵr ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cydnabyddir hyn gan y swm o £16 miliwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn y flwyddyn ariannol hon a buddsoddiad rhagamcanol o'r un swm yn 2026-27. Mae'r Rhaglen Gyfalaf Dŵr yn canolbwyntio ar nod Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 i leihau llygredd a gwella cyflwr ecosystemau dyfrol, hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o ddŵr a lleihau effeithiau llifogydd a chyfnodau o sychder. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi rhaglen waith amlflwydd hyblyg y bwriedir iddi leihau nifer y cyrsiau dŵr sy'n methu â sicrhau statws ecolegol da ac rydym yn bwriadu darparu'r cyllid sydd ei angen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith y rhoddwyd blaenoriaeth iddo am y bydd yn cael yr effaith fwyaf.

# Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gynnwys y nifer sy'n manteisio ar y Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Gronfa Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol

71. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi sut y byddwn yn rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol dros y degawd nesaf gyda'r amcanion i flaenoriaethu buddsoddiad, gwella ein dealltwriaeth o risg, meithrin gwydnwch, atal mwy o bobl rhag cael eu hamlygu i risg ac ymateb i ddigwyddiadau.

72. Eleni, mae'r rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi parhau i ariannu'r gwaith o gwblhau'r cynllun mawr a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn Stryd Stephenson, Casnewydd, ynghyd â'r gwaith i ddatblygu cynlluniau llifogydd ar gyfer y dyfodol ym Mhwllheli, Port Talbot ac Aberteifi. At hynny, mae dros 230 o gynlluniau a arweinir gan awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cael cymorth, gyda mwy na £14 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn cymysgedd o atebion peirianneg confensiynol a gwyrdd.

73. Gan edrych ymlaen i 2026/27, mae'r rhaglen yn parhau i arddel safbwynt cryf ac uchelgeisiol, gyda llif o gynlluniau cyfalaf arfaethedig gwerth mwy na £230 miliwn wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau hyn yn ffurfio portffolio amrywiol a chymhleth o ymyriadau perygl llifogydd. Disgwylir i'r gwaith o adeiladu rhai o'r cynlluniau hyn ddechrau eleni ac mae eraill yn mynd drwy gamau dylunio a chynllunio manwl. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddatblygu atebion cadarn, hirdymor sy'n gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd ledled Cymru. Disgwylir i'r gwaith o adeiladu rhai o'r cynlluniau hyn ddechrau eleni ac mae eraill yn mynd drwy gamau dylunio a chynllunio manwl.

74. Mae ein Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol bellach yn tynnu at ei therfyn. Mae'r Rhaglen wedi darparu buddsoddiad wedi'i dargedu gwerth £291m dros bum mlynedd ac erbyn iddi ddod i ben, bydd wedi ariannu 15 o gynlluniau ar hyd arfordir Cymru gyda bron i 14,000 o eiddo yn cael budd ohoni.

75. Ers 2020, rydym wedi darparu cyllid er mwyn helpu i ddatblygu'r rhaglen Rheoli Llifogydd yn Naturiol yng Nghymru a'i rhoi ar waith. Dechreuodd hyn gyda Chynllun Peilot Rheoli Llifogydd yn Naturiol, a ariannwyd drwy'r gyllideb ar gyfer llifogydd ac fe'i dilynwyd gan y Rhaglen Sbarduno ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol, a gefnogwyd drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig.

76. Gan adeiladu ar y gwaith ardderchog a oedd eisoes wedi'i wneud gan Awdurdodau Rheoli Risg, gwnaethom ddyrannu £2 filiwn ychwanegol ar gyfer 2025/26 drwy'r

gyllideb ar gyfer llifogydd sy'n cael ei chynnal yn 26-27. Bydd y cyllid hwn yn ei gwneud yn bosibl i Awdurdodau Rheoli Risg ehangu cynlluniau presennol a pharhau i ddysgu am fanteision ehangach Rheoli Llifogydd yn Naturiol. Nod y prosiectau hyn yw gwella'r amgylchedd naturiol ac, ar yr un pryd, leihau perygl llifogydd i eiddo.

77. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050, sy'n dadlau'n gryf dros fabwysiadu dull seiliedig ar ddalgylchoedd o reoli perygl llifogydd, gan sicrhau bod byd natur a chymunedau wrth wraidd yr ymateb i berygl llifogydd.

## Cymorth ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru a'r gwaith o ddatblygu trefniadau llywodraethiant amgylcheddol mwy parhaol

78. Rwy'n ymrwymedig i weithio tuag at sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru ac rwyf wedi dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi hyn.

79. Mae cyllideb Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, sef £120,000, wedi cynyddu i £165,000 yn sgil penodi dau Ddirprwy Asesydd Interim ac mae'n rhan o'r gyllideb ehangach ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol.

## Parciau Cenedlaethol

80. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnydd mewn cyllid craidd ar gyfer pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid craidd statudol i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ogystal â chymorth dewisol i'n Tirweddau Cenedlaethol.

81. Bydd y cyllid yn gwneud yn bosibl i bob un o'n Tirweddau Dynodedig barhau â'i gwaith pwysig i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd, gan alluogi pobl i ymgysylltu â rhai o'n hardaloedd mwyaf prydferth.

82. Bydd dyraniad cyllidebol penodol yn 2026/27 yn parhau i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.

83. Bydd y cyllid hwn yn ei gwneud yn bosibl i Cyfoeth Naturiol Cymru, sef ein cynghorwyr statudol yn y maes hwn, gwblhau ei waith paratoi a chynghori, gan sicrhau, ar yr un

pryd, fod adnoddau digonol ar gael ar gyfer y gweithgareddau pontio a pharatoi angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy er mwyn meithrin gallu a gwydnwch tra bydd y gwaith dynodi yn mynd rhagddo.

## Mynediad i gefn gwlad

84. Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllid ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy'n galluogi ac yn hyrwyddo mynediad i gefn gwlad a mannau gwyrdd sy'n dod ag amrywiaeth o fanteision gan gynnwys hybu llesiant corfforol a meddyliol.

85. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r cyllid ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer ei gynnal a'i gadw, ei ddatblygu ymhellach a'i hyrwyddo.

86. Mae cyllid hefyd wedi'i ddyrannu i barhau â nifer o raglenni llwyddiannus, gan gynnwys cynlluniau poblogaidd y Grant Gwella Mynediad, y Faner Werdd a'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol, yn ogystal â chyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol Llywodraeth Cymru megis unrhyw achosion llys sy'n ymwneud â mynediad.

## Newid Hinsawdd

# Effaith polisïau arfaethedig Llywodraeth y DU ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi sero net

87. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraethau ledled y DU er mwyn cydweithio tuag at ein nod gyffredin o sero net erbyn 2050. Mae dros hanner allyriadau Cymru yn deillio o sectorau y mae'r polisïau ar eu cyfer wedi'u cadw'n ôl i raddau helaeth i Lywodraeth y DU. Rydym yn croesawu Cenhadaeth Ynni Glân Llywodraeth y DU am ei bod yn ceisio cyflymu cynnydd y DU tuag at ffynonellau glân o bŵer erbyn diwedd y degawd. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar allu Cymru i leihau ei hallyriadau oherwydd natur gydgysylltiedig y rhwydwaith ynni yn y DU. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i gysoni camau gweithredu i gyflymu'r gwaith o gyflwyno technolegau ynni adnewyddadwy.

# Cyflawni'r polisïau a'r cynigion yng nghynllun Cymru Sero Net sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor hwn

88. Ymdrinnir â chamau datgarboneiddio yn yr wyth prif sector allyriadau gan 123 o bolisïau a chynigion yn y fersiwn gyfredol o gynllun Cymru Sero Net (ar gyfer Cyllideb Garbon 2). Camau i ddatgarboneiddio a gymerir gan y sector ynni, y sector trafnidiaeth a'r sector cyhoeddus sydd fwyaf perthnasol i'r pwyllgor hwn. Mae'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu hyn yn y Sector Ynni a'r Sector Trafnidiaeth yn cael ei arwain gan Ysgrifenyddion eraill y Cabinet ac ni chaiff ei adlewyrchu yn fy nghyllideb.

89. Rydym yn parhau i gefnogi camau datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus, yn unol â'n huchelgais i sicrhau bod y sector cyhoeddus cyfan yn sero net erbyn 2030. Unwaith eto yn 2026/27 byddwn yn buddsoddi mwy nag £21m mewn benthyciadau a grantiau er mwyn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r prosiectau hyn yn helpu i sicrhau arbedion cost yn ogystal â lleihau allyriadau carbon.

# Datblygu cynlluniau i gyflawni Cyllideb Garbon 3

90. Mae'r gyllideb yn cefnogi gwaith yn nhîm newid hinsawdd canolog Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun ar gyfer Cyllideb Garbon 3. Mae hyn yn cynnwys gallu dadansoddol i ddeall ac archwilio cyngor manwl y Pwyllgor Newid Hinsawdd a'r adnoddau i weithio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau a chynigion i gyflawni'r Gyllideb Garbon nesaf. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o

gyflawni ein strategaeth newid ymddygiad ac ymgysylltu ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd, sy'n cynnwys Wythnos Hinsawdd Cymru a'r Sgyrsiau cysylltiedig am yr Hinsawdd.

91. Cyhoeddais ddogfen drafod i gyd-fynd ag Wythnos Hinsawdd Cymru, gan ddefnyddio cyngor arbenigol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035 ac eraill. Bydd gwybodaeth o drafodaeth ynghylch y papur hwn yn llywio ein cynllun lleihau allyriadau nesaf, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2026. Bydd y cynllun hwnnw'n arwain at ddewisiadau cyllidebol ar gyfer llywodraeth yn y dyfodol.

## Camau addasu i'r hinsawdd a manylion dyraniadau penodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth addasu i'r hinsawdd newydd

92. Mae portffolios ym mhob rhan o'r llywodraeth yn ariannu eu camau gweithredu perthnasol a nodir yn y Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 drwy eu dyraniadau cyllidebol eu hunain. Fodd bynnag, mae dyraniad cyllidebol hefyd ar gyfer gwneud gwaith i fynd i'r afael â materion trawsbynciol strategol mewn perthynas â risgiau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn 2026/27 byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar alluogi a grymuso cynnydd o ran addasu i'r hinsawdd drwy atgyfnerthu trefniadau monitro, rhoi Panel Arbenigol ar waith i ddefnyddio arbenigedd academaidd ac arbenigedd o'r sector i atgyfnerthu ein gallu i gyflawni yn erbyn y Strategaeth ymhellach, ac ymgysylltu â'r sector cyhoeddus ehangach ynghylch cyflawni mesurau addasu ac adrodd arnynt. Bydd cyllid hefyd yn talu am gyfraniad Cymru at Bwyllgor Addasu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd.

## Gweithredu'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru ac argymhellion Archwiliad Dwfn i Goed a Phren 2021, gan gynnwys cyflawni'r Goedwig Genedlaethol a chynyddu'r gyfradd plannu coed

93. Bydd y gyllideb yn ariannu'r gwaith o ehangu Coedwig Genedlaethol Cymru ymhellach gan gynnwys drwy gymorth parhaus ar gyfer safleoedd sy'n awyddus i ymuno â'r Cynllun Statws, yn ogystal â dulliau newydd o gyflawni ar raddfa tirwedd a Llwybr y Goedwig Genedlaethol. Yn dilyn lansio'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn Sioe Frenhinol Cymru, caiff cyllid ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y sector gan gynnwys drwy gynllun buddsoddi cyfalaf a darpariaeth sgiliau. Caiff ei ddefnyddio hefyd i gefnogi ymyriadau i helpu i gynyddu ein cyfraddau plannu coed er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau o ran sero net. Mae cymorth grant ar gyfer plannu coed a chreu coetir hefyd wedi'i gynnwys yn BEL Cymorth Amaethyddol fel rhan o ddarpariaeth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

# Manylion dyraniadau cyllidebol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

94. Bydd cynnydd chwyddiannol o 2.2% yn nyraniad cyllidebol refeniw Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2026-27 o gymharu â'i gyllideb sylfaenol ar gyfer 2025-26 – a oedd yn cynnwys yr addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer ei gyfraniadau Yswiriant Gwladol, dyfarniadau cyflog staff a chyllid i gefnogi buddsoddi mewn gwaith cynllunio a chydsynio seilwaith.

95. Mae dyraniad cyllidebol cyfalaf Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi'i gynnal ar lefelau 2025-26, a oedd yn cynnwys cyllid cyfalaf i gefnogi gwelliannau i seilwaith digidol Cyfoeth Naturiol Cymru ymhellach, gan adeiladu ar y gwelliannau a wnaed yn 2025-26.

# Manylion unrhyw newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau neu i amserlenni prosiectau sy'n ymwneud â Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol presennol.

96. Bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ymwybodol o Achos Cyfoeth Naturiol Cymru dros Newid yn 2024-25 er mwyn sicrhau arbedion a darparu ar gyfer ail-lunio'r sefydliad er mwyn iddo allu gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllidebau sydd ar gael iddo. Mae'r broses hon bellach wedi dod i ben ac mae'r sefydliad bellach yn canolbwyntio ar ymgorffori'r newidiadau hyn wrth iddo roi blaenoriaeth i gyflawni ei ddyletswyddau craidd a'i gyfrifoldebau statudol.

## Manylion unrhyw swyddogaethau, dyletswyddau neu gyfrifoldebau newydd rydych yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â nhw yn ystod cyfnod y gyllideb a'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu at y dibenion hynny

97. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael cyllid cymesur fel y bo'n briodol ar gyfer unrhyw swyddogaethau, dyletswyddau neu gyfrifoldebau newydd a osodir arno yn ystod cyfnod y gyllideb hon drwy gyllid grant penodol o fewn y maes polisi priodol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, swyddogaeth a dyletswyddau i gefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## Cynnydd proses yr Achos dros Newid

98. Mae proses yr Achos dros Newid bellach wedi'i chwblhau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn canolbwyntio ar ymgorffori'r newidiadau hyn, yn y sefydliad, wrth iddo roi blaenoriaeth i gyflawni ei swyddogaeth graidd a'i ddyletswyddau statudol.

## Y sefyllfa ddiweddaraf o ran atebolrwydd posibl Cyfoeth Naturiol Cymru i dalu treth a'i thalu i CThEF, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

99. Mater rhyngddo ef a CThEF yw atebolrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru i dalu treth. Deellir bod CThEF yn dechrau ar gamau olaf ei ymchwiliad i ddiffyg cydymffurfiaeth hanesyddol Cyfoeth Naturiol Cymru â threfniadau IR35. Disgwylir i ganlyniad yr ymchwiliadau hyn gael ei gyhoeddi'n fuan.

## Manylion y telerau ad-dalu y cytunwyd arnynt â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ffordd y bodlonodd Llywodraeth Cymru ei hun fod hyn yn fforddiadwy;

100. Ym mis Chwefror, cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar drefniadau lleihau'r gyllideb er mwyn adennill yr arian parod gweddilliol ac arian o'r ddarpariaeth gyllidebol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi galluogi taliad ar gyfrif i CThEF er mwyn atal llog rhag cronni.

101. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y lleihad yn y gyllideb y cytunwyd arno yn fforddiadwy a rhoi'r sicrwydd gofynnol bod ei swyddogaeth graidd a'i ddyletswyddau statudol yn parhau i gael eu cyflawni o fewn cyllidebau sydd ar gael.

102. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi diweddariad llawn i'r Pwyllgor ar ei atebolrwydd i dalu treth unwaith y bydd CThEF wedi cwblhau ei waith, gan gynnwys symiau unrhyw setliad terfynol, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi'n fuan, sy'n cynnwys sut mae'n bwriadu rheoli'r lleihad yn y gyllideb er mwyn cyfrif am y taliad ar gyfrif a'i adolygiad yn nodi gwersi a ddysgwyd.

## Pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud yng nghyllideb 2026-27 a chyllideb ddrafft 2027-28 ar gyfer unrhyw atebolrwyddau pellach yn y dyfodol.

103. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent wedi ceisio'r sicrwydd angenrheidiol na ddisgwylir unrhyw atebolrwyddau yn y dyfodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynd ati'n rhagweithiol i ddysgu o'r profiad hwn ac wedi cyflogi cynghorwyr treth allanol i gynnal adolygiad annibynnol o'i drefniadau newydd mewn perthynas â'r ffordd y mae'n rheoli contractwyr.

104. Mae'r trefniadau monitro a roddwyd ar waith, yn dilyn profiad IR35, wedi bod yn fuddiol i'r ddau sefydliad. Mae'r trefniadau hyn bellach wedi'u hymgorffori yn y trefniadau llywodraethu ac maent bellach yn cael eu hystyried yn arferion gwaith normal. Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mewn lleihau'r risg y bydd achosion o'r fath yn codi yn y dyfodol.

## Atodiad A – Dyraniadau yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

Bydd yr adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r dyraniadau yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a BEL.

# Ansawdd yr Amgylchedd a'r Môr

## Y Môr

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **2875 –** Môr | 2,412 | - |
| **Gweithgaredd arfaethedig o dan y BEL** | | |
| Uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol yw bod moroedd Cymru 'yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol'. Caiff y gyllideb ei defnyddio i gyflawni blaenoriaethau'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer y môr er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgais hon, gan gynnwys yr ymrwymiad penodol yn y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â gwaith adfer arfordirol.<br><br>Bydd gwaith yn canolbwyntio ar gynllunio a thrwyddedu morol, bioamrywiaeth a datblygu polisi newid hinsawdd. Byddwn yn parhau i wella gwydnwch ecosystemau drwy broses ddynodi rhwydweithiau Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ymyriadau adfer wedi'u targedu gan gynnal ein hymrwymiadau i ennill Statws Amgylcheddol Da ar yr un pryd. Byddwn yn ymateb i dystiolaeth sy'n datblygu ynglŷn â chynefinoedd carbon glas a'u pwysigrwydd byd-eang fel rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau morol yn y dyfodol a'n cyfraniad at gyflawni Sero Net. | | |

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2230 – Llifogydd a Dŵr** | 3,569 | 33,499 |
| **Diben y BEL** | | |

**Rhaglen Refeniw Arfaethedig**

Mae Cyllideb Adnoddau FCERM i raddau helaeth yn ariannu Awdurdodau Rheoli Risg Cymru i gynnal gweithgareddau megis cynnal a chadw asedau, gwaith codi ymwybyddiaeth, mapio ymchwiliadau i lifogydd (adroddiadau Adran 19), rhybuddio a hysbysu a chostau staff.

**Rhaglen Refeniw Dŵr**

Fe'i defnyddir i gyflawni swyddogaethau statudol a rheoleiddiol mewn perthynas â dŵr a charthion, gan gynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid ar yr adolygiad statudol o brisiau dŵr sy'n pennu biliau a thaliadau dŵr a buddsoddiad cwmnïau dŵr ar gyfer 2025-2030. Mae hefyd yn ariannu cymorth ar gyfer cyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth i atgyfnerthu'r gofynion ar gyfer defnyddio systemau draenio cynaliadwy sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt a dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan atgyfnerthu trefniadau monitro ansawdd dŵr. Mae hyn yn cynnwys ymchwil a threfniadau cydweithio gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid a gweithredu diwygiadau i system reoleiddio'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn dilyn adroddiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol.

**Rhaglen Gyfalaf Llifogydd**

Mae cyllid cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwaith paratoi achosion busnes a dylunio cyn y cam adeiladu yn ogystal ag i adeiladu cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol newydd. Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei ariannu drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Rhaglen Gyfalaf Dŵr**

Nod Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 yw lleihau llygredd a gwella cyflwr ecosystemau dyfrol, hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o ddŵr a lleihau effeithiau llifogydd a chyfnodau o sychder.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi rhaglen waith amlflwydd hyblyg y bwriedir iddi leihau nifer y cyrsiau dŵr sy'n methu â sicrhau statws ecolegol da. Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys gwaith adfer ar gyfer mwyngloddiau metel segur er mwyn helpu i atal llygredd peryglus rhag cael ei ollwng i ddyfrffyrdd, ac amrywiaeth o waith cyfalaf i fynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n achosi methiannau ansawdd dŵr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith yn ôl ble y caiff yr effaith fwyaf a lle y gellir ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol hon.

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2232 – Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | 9,878 | 40,217 |

**Diben y BEL**

**Diogelwch Tomenni Glo**

Mae'r BEL ar gyfer y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo i awdurdodau lleol wneud gwaith ar domenni, sydd wedi'i nodi mewn adroddiadau arolygiadau neu lle mae llithriad wedi digwydd. At hynny, rydym yn ymrwymedig i gam olaf y gwaith i adfer tomen lo Tylorstown a gwaith ar gronfeydd dŵr.

Mae'r cynllun grant yn darparu cyllid i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddynt gwblhau gweithgareddau cynnal a chadw ar domenni glo cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod mewn cyflwr lle mae'r risg o lithriad yn cael ei rheoli a'i lleihau. Mae enghreifftiau proffil uchel lle mae cyllideb flaenorol wedi'i defnyddio yn cynnwys gwaith adfer Tylorstown a Dyffryn Rhondda.

Yn ail, mae'r gyllideb yn cydnabod y costau gweithredu sy'n deillio o'r Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru). . Mae cyllid hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer parhau â gwaith yr Awdurdod Glo mewn perthynas â'r gyfundrefn arolygu.

**Diogelwch Cronfeydd Dŵr**

Mae diogelwch cronfeydd dŵr hefyd o'r pwys pennaf o ystyried y risgiau os na chânt eu cynnal a'u cadw a'r rhagolwg ar gyfer newidiadau i'r hinsawdd yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y dyraniadau cyllidebol gyda £4.9m yn cael ei darparu ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr.

# Tir Natur Coedwigaeth

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2825 –** Bioamrywiaeth a Thystiolaeth | 11,071 | 11,500 |
| **BEL 2814 - Rheolaeth Amgylcheddol (Pwllperian) (Heb Fod yn Arian Parod)** | 38 | - |

**Diben y BEL**

Mae gweithredu o blaid bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chyflawni ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys:

- Rhaglen Rhwydweithiau Natur – gwella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig (gwella mannau gwyrdd).
- Partneriaethau Natur Lleol – hyrwyddo cydgysylltu camau gweithredu a gaiff eu llywio'n lleol.
- Datblygu targedau cyfreithiol rwymol a systemau adrodd a monitro priodol drwy Fil blwyddyn pedwar.
- Ymgorffori bioamrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau drwy'r tasglu bioamrywiaeth a dyletswydd adran 6.
- Adfer rhywogaethau gan gynnwys pryfed peillio ac iechyd gwenyn

## Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2802 – Diogelu a Rheoleiddio Planhigion a Bywyd Gwyllt** | 2,100 | 5,200 |

**Diben y BEL**

Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn cefnogi amrywiaeth o waith ar iechyd planhigion, rheoli bywyd gwyllt a throseddau cefn gwlad a rheoliadau amgylcheddol.

Iechyd planhigion ac organeddau a addaswyd yn enetig
Cyllid ar gyfer gwaith i gynnal **Bioddiogelwch Cymru ar gyfer planhigion**, datblygu polisi ar gyfer **technolegau genetig newydd** a rheoleiddio **organeddau a addaswyd yn enetig.** Mae hyn yn cynnwys yr holl waith datblygu polisi ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ymateb i

achosion nas cwmpesir gan ein cytundebau â Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac APHA. Ariennir y rhan fwyaf o'r rhain drwy gytundeb â Defra.

Troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt a rheoli bywyd gwyllt
Cyllid i gefnogi **gwaith polisi ar droseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt** gan gynnwys rheoliadau ynglŷn â hela, maglau, trapiau glud, rheoli moch gwyllt, trwyddedu/rheoleiddio unrhyw **weithgareddau i aflonyddu ar foch daear** a'u brochfeydd **neu ymyrryd â nhw** gan gynnwys cynnal profion TB ar foch daear. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y **swyddog troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad** a chyllid rhannol ar gyfer y **Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt** yng Nghymru sy'n ymchwilio i achosion a amheuir o wenwyno bywyd gwyllt, anifeiliaid anwes a phryfed buddiol a ariennir yn rhannol gan ardoll ar blaladdwyr.

Rhywogaethau Goresgynnol Estron, Amrywogaethau Planhigion a Hadau, Plaladdwyr a Bioladdwyr, Asesiad o'r Effaith Amgylchedd (Amaethyddol)

Cyllid ar gyfer dileu **rhywogaethau goresgynnol estron** mewn ardaloedd penodol a gwaith polisi ar rywogaethau goresgynnol. Cyllid ar gyfer gwaith polisi ar **Amrywogaethau Planhigion a Hadau,** gan gynnwys cynnal y rhestrau cenedlaethol o hadau ac amrywogaethau planhigion, gan gynnwys unrhyw gostau tribiwnlys sy'n daladwy gan Gymru Cyllid ar gyfer gwaith polisi ar **reoleiddio plaladdwyr a bioladdwyr** lle mae'r gwaith gweithredol yn cael ei ariannu drwy Defra ac mae polisi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i ddatganoli ond nad yw cyllidebau wedi'u datganoli. Cyllid i gefnogi'r broses o roi rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) ar waith.

Mae'r llinell hon yn y gyllideb hefyd yn cefnogi'r **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd** sy'n darparu arweinyddiaeth gydgysylltiedig, genedlaethol drwy Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adfer mawndiroedd yn barhaus. Y nod yw adfer ecosystemau gweithredol a fydd, yn ei dro, yn diogelu bioamrywiaeth ac yn atafaelu carbon. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi polisi ar **ddiogelu priddoedd amgylcheddol** gan gynnwys ein **tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.**

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2827 – Coedwigaeth** | 6,541 | 9,310 |
| **BEL 2827 – Coedwigaeth (Heb Fod yn Arian Parod)** | 83 | - |

**Diben y BEL**

**Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn ariannu amrywiaeth o weithgarwch er mwyn helpu i roi'r strategaeth Coetiroedd i Gymru ar waith.**

**Y Goedwig Genedlaethol**

Cyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt Coetiroedd y Goedwig Genedlaethol yn Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o greu a gwella coetiroedd sy'n cyrraedd safonau'r Goedwig Genedlaethol a chreu coetiroedd coffa COVID-19.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Trawsffiniol**

Cyllid i gefnogi meysydd gwaith lle mae cydweithio trawsffiniol yn fuddiol: iechyd coed, y Cod Carbon Coetiroedd, ymchwil coedwigaeth, economeg coedwigaeth a Safon Coedwigaeth y DU. Mae Cymru yn cyfrannu 10% o gyfanswm y cyllid i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gyda'r 90% o'r cyllid sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng yr Alban a Lloegr.

**Polisi coedwigaeth**

Cyllid i gefnogi prosiectau er mwyn creu mwy o goetiroedd a pharhau â'r gwaith o ddatblygu polisi coedwigaeth.

**Strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren**

Cyllid i helpu i gyflawni 'Gwneud i Bren Weithio i Gymru', sef ein Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren.

**Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cadarnhau bod cynlluniau creu coetir yn cyrraedd Safon Coedwigaeth y DU.

**Adfer Coetir**

Cyllid ar gyfer grantiau i adfer coetiroedd y mae clefydau coed wedi effeithio arnynt.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Forest Research**

Cyllid ar gyfer Forest Research, sef asiantaeth ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth, er mwyn mapio coetir yng Nghymru, darparu gwasanaeth monitro a chadw gwyliadwriaeth ar iechyd coed a nodi clefydau coed a materion ymchwil allweddol ym maes rheoli coedwigoedd.

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2490 – Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad** | 13,674 | 8,900 |
| **Diben y BEL** | | |
| Tirweddau Dynodedig<br><br>Mae ein Tirweddau Dynodedig (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol) yn chwarae rôl hollbwysig o ran diogelu rhai o'n hardaloedd mwyaf gwerthfawr a phrydferth ac maent yn ymestyn dros 25 y cant o arwynebedd tir Cymru. Maent yn ysgogwyr allweddol ar gyfer nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys twristiaeth, bioamrywiaeth, datgarboneiddio, iechyd a llesiant, cymunedau cynaliadwy a'r Gymraeg.<br><br>Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn darparu cyllid craidd i'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r pum Tirwedd Genedlaethol.  Mae hefyd yn darparu cyllid grant penodol i'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Tirweddau Cenedlaethol, yn ogystal â chyllid ar gyfer penodiadau cyhoeddus i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol<br><br>Mae hefyd yn ariannu ffrydiau gwaith sy'n edrych ar Barc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, sef ein cynghorwyr statudol yn y maes hwn.<br><br>Mynediad<br><br>Mae'r llinell hon yn y gyllideb hefyd yn darparu cyllid er mwyn cefnogi nifer o raglenni, gwasanaethau ac ymyriadau i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Prif Weinidog sy'n ymwneud â mynediad i'r cyhoedd a hamdden, mannau gwyrdd a rhandiroedd.<br><br>Ariennir cyfraniad Llywodraeth Cymru at gost y gwaith o gynnal a chadw Llwybr Arfordir Cymru a'i hyrwyddo drwy'r llinell hon yn y gyllideb, yn ogystal â chyfrifoldebau cysylltiedig eraill Llywodraeth Cymru megis unrhyw achosion llys sy'n ymwneud â mynediad. | | |
| | | |

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2195 – Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi** | 510 | - |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn ariannu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.<br><br>Ym mis Ebrill 2018, cafodd y cyfrifoldeb am gasglu treth dirlenwi ei ddatganoli i Gymru, fel y nodir yn Neddf Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Mae adran 92 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a fydd yn darparu ar gyfer cyllid grant i gymunedau y mae gwarediadau tirlenwi neu weithgareddau mewn gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn effeithio arnynt. | | |

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2820 –** Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 2,703 | 12,564 |
| **Diben y BEL** | | |

Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn cyllido'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sy'n helpu cymunedau i greu natur ar garreg eu drws, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig a chymunedau nad oes ganddynt fawr ddim mynediad at natur, os o gwbl. Dechreuodd y rhaglen yn 2020 ac mae'n cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu bresennol, sef "Ehangu trefniadau i greu mannau gwyrdd neu eu gwella'n sylweddol".

Mae cyllid cyfalaf wedi'i ddirprwyo i dri Rheolwr Cynllun, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cadw Cymru'n Daclus a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n cydweithio, gan redeg cynlluniau unigol;

- CGGC – mae 25 o Bartneriaethau Natur Lleol, a arweinir gan Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yn cyflwyno prosiectau yn lleol.
- Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cynllun grant cyfalaf cystadleuol mynediad agored a gynhelir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
- Cadw Cymru'n Daclus – Pecynnau cymunedol i greu gerddi i bryfed peillio a gerddi tyfu cymunedol gan gynnwys strwythurau o waith dyn.

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2190 – Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol** | 36,515 | 37,653 |

**Diben y BEL**

**Cyllido Partneriaid Cyflawni**
Mae cyflawni'r gwaith ar economi gylchol yn dibynnu'n fawr ar y cymorth allanol a ddarperir gan wahanol Gyrff Cyflawni, sy'n darparu arbenigedd ac adnoddau hanfodol i gyflawni'r ystod eang o ymrwymiadau. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud gyda WRAP a Phartneriaethau Lleol i gysoni adnoddau â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys y Rhaglen Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig a'r Rhaglen Seilwaith Economi Gylchol – gan atgyfnerthu trefniadau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau a darparu cymorth i Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt lunio achosion busnes cadarn dros fuddsoddi mewn seilwaith.

At hynny, mae'r gyllideb yn helpu partneriaid cyflawni megis Caffi Trwsio Cymru i sefydlu caffis trwsio ledled Cymru a Fareshare i drefnu bod bwyd a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu o'r diwydiant bwyd a diod yn cael ei ailddosbarthu i gymunedau mewn angen ledled Cymru.

Mae hyn hefyd yn cynnwys cyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddo gefnogi'r gwaith o roi diwygiadau i reolau ailgylchu yn y gweithle, y Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar waith drwy ddarparu cyngor manwl ar faterion technegol a gorfodi ac fel y rheoleiddiwr ar gyfer yr economi gylchol yng Nghymru.  Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer troseddau gwastraff ac olrhain gwastraff hefyd ac mae'n chwarae rôl allweddol mewn gwaith datgarboneiddio er mwyn mynd i'r afael ag allyriadau o safleoedd tirlenwi etifeddol.

**Y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy**
Cyllid i helpu Awdurdodau Lleol i lunio, datblygu a chyflawni gwelliannau strategol i'w dull o ymdrin â'r Economi Gylchol, symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff a pharatoi ar gyfer y Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig.

**Gwelliant wedi'i Dargedu mewn Cyfraddau Ailgylchu a Chynllunio Strategol**
Cyllid i sicrhau gwelliant parhaus o ran perfformiad ac effeithlonrwydd gwasanaethau casglu ailgylchu a gwasanaethau ehangach, gan gynnwys atgyweirio ac ailddefnyddio. Gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio'r dystiolaeth i gymryd camau i wella cyfraddau ailgylchu Cymru er mwyn cyflawni'r targed statudol gofynnol o 70% a pharatoi ar gyfer rhoi taliadau'r Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar waith ar sail effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

**Y Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig, y Cynllun Dychwelyd Ernes ac Ailgylchu yn y Gweithle**
Dyrennir y cyllid hwn er mwyn cyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig, y Cynllun Dychwelyd Ernes a Diwygiadau i Reolau Ailgylchu yn y Gweithle. Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â chyflwyno diwygiadau ym mhob rhan o'r economi gyfan a fydd yn sicrhau arbedion carbon sylweddol yn ogystal â bod yn hanfodol i wneud cynnydd pellach ym maes ailgylchu a symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff.

**Y Gronfa Economi Gylchol ar gyfer Busnesau**

Mae'r cyllid yn cyflawni'r ymrwymiad allweddol yn *Mwy nag Ailgylchu* a *Cymru Sero Net* i helpu busnesau i addasu eu prosesau i fod yn fwy cylchol, er enghraifft drwy ddefnyddio cynnwys wedi'i ailgylchu mewn prosesau gweithgynhyrchu neu newid i ddeunyddiau mwy cynaliadwy ac mae'n dilyn y cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd dros y tair blynedd diwethaf.

**Y Gronfa Economi Gylchol ar gyfer y Sector Cyhoeddus**
Mae'r cyllid cyfalaf hwn wedi'i dargedu'n bennaf at Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi camau gweithredu craidd yr Economi Gylchol ar waith a datblygu llif o brosiectau seilwaith economi gylchol sy'n cael eu datblygu ar y cyd ag Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau o ran perfformiad ailgylchu, cynyddu gweithgarwch atgyweirio ac ailddefnyddio, gwella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd a datgarboneiddio gweithrediadau gwastraff ac ailgylchu yn unol â'r targed ar gyfer 2030.

Mae cyllid hefyd wedi'i ddyrannu er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i barhau â'r broses o newid eu fflyd i gerbydau casglu Allyriadau Isel Iawn ar gyfer ailgylchu a gwastraff gweddilliol.

**Staff Rhaglen**
Staff a ariennir gan raglen sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru ac ymrwymiadau cyffredinol yn y Rhaglen Lywodraethu a Cymru Sero Net.

# Nawdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Diogelu'r Amgylchedd

## Cyfoeth Naturiol Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2451 – Cyfoeth Naturiol Cymru** | 105,335<br><br>10,000 heb fod yn arian parod | 27,806 |

| **Diben y BEL** |
|---|
| Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn darparu Cymorth Grant i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddo gyflawni ei brif gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol. Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorwr a rheoleiddiwr amgylcheddol Llywodraeth Cymru ac mae'n helpu i gyflawni amrywiaeth eang o flaenoriaethau ac ymrwymiadau gweinidogol, drwy gymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.<br><br>Mae cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei ddarparu i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cefnogi ei weithgareddau craidd a ariennir gan gyllid cyfalaf sy'n cynnwys gwaith datblygu cynlluniau (gan gynnwys datblygu achosion busnes), prosiectau mapio a modelu, costau staff, TGCh ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â llifogydd, llogi fflyd ceir/peiriannau a gwaith cynnal a chadw cyfalaf. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid ar gyfer perygl llifogydd.<br><br>Cyfansymiau heb fod yn arian parod £10m |

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| **BEL 2817 – Diogelu'r Amgylchedd (Ymbelydredd ac Atal Llygredd gynt)** | 6,805 | 2,686 |
| **Diben y BEL** | | |
| Mae'r llinell hon yn y gyllideb yn cefnogi 43nsawd polisi a 43nsawd deddfwriaethol mewn perthynas ag 43nsawdd aer, cemegion, sŵn amgylcheddol, llygredd diwydiannol ac ymbelydredd/gwastraff ymbelydrol. Mae hyn yn cynnwys rhoi deddfwriaeth gysylltiedig ar waith yn ôl yr angen er mwyn cyflawni'r mesurau polisi hynny. Mae hefyd yn cwmpasu 43nsawd achosion am dorri'r gyfraith, gan gynnwys rhai costau cyfreithiol, sy'n gysylltiedig â llygredd diwydiannol ac 43nsawdd aer. | | |

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2812 – **Deddfwriaeth, Gweithredu, Llywodraethiant** a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd | 2,891 | - |
| **Gweithgaredd arfaethedig o dan y BEL** | | |

Mae'r BEL yn sicrhau darpariaeth gyllidebol ar gyfer costau deddfwriaeth, costau llywodraethu a chostau cyfreithiol sy'n effeithio ar y prif grŵp gwariant amgylcheddol a rhaglenni cysylltiedig ac mae'n cynnwys y costau staffio rhaglen ar gyfer cyfreithiwr.

Mae'r BEL hefyd yn cefnogi ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu gweithgarwch rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a rhoi Deddf yr Amgylchedd ar waith drwy nifer o gynlluniau cyflawni. Mae'n cefnogi swyddi staff sydd eu hangen i gynnal a rheoli'r cynlluniau a'r rhaglenni grant hyn. Mae hefyd yn helpu i gefnogi'r **rhaglen Eco-Ysgolion** ryngwladol ledled Cymru, ymrwymiad y Gweinidog i'r rhaglen plannu coed ac addysg newid hinsawdd a gynhelir gan yr **elusen Maint Cymru**.

Mae hefyd yn darparu ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer y Corff Llywodraethiant Amgylcheddol newydd.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn cefnogi gwaith i ymgorffori Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2017 a'r Polisi Adnoddau Naturiol.

# Newid Hinsawdd

## Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **BEL 2809 – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru** | 4,250 | 22,200 |

**Diben y BEL**

BEL 2809 Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru – Diben y buddsoddiad hwn yw helpu cyrff cyhoeddus i gynnal prosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn helpu cymunedau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, lleihau eu costau ynni a buddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn cefnogi'r rhaglen Arloesi ar gyfer yr Hinsawdd (a elwid gynt yn fenter Byw'n Glyfar) sy'n ysgogi arloesi seiliedig ar leoedd ym maes datgarboneiddio cyn y farchnad).

Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu ar gyfer rhoi'r trywydd tuag at sero net ar gyfer y sector cyhoeddus ar waith a chyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r canllaw ar allyriadau carbon sector cyhoeddus Cymru.

Mae cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol gwerth £10.2m hefyd wedi'i gynnwys uchod.

## Camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **BEL 3771 – Gweithredu ar Newid Hinsawdd** | 3,867 | - |

**Diben y BEL**

<u>Addasu i'r Hinsawdd</u>

- Cwblhau gwaith i ddeall y sefyllfa bresennol o ran parodrwydd ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a nodi unrhyw gyfyngiadau ar waith cynllunio ar gyfer addasu
- Ariannu gweithgarwch i fynd i'r afael â bylchau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig ag addasu i newid hinsawdd yn y sector cyhoeddus ehangach

<u>Rhaglen Ddatgarboneiddio</u>

Cyllid i ddatblygu'r fersiwn nesaf o Gynllun Cyflawni Cymru Sero Net a fydd yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni targedau ar gyfer lleihau allyriadau a'n Cyllideb Garbon. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a gwaith dadansoddi i ddatblygu llwybrau datgarboneiddio; datblygu polisi a'i roi ar waith gan gynnwys Fframwaith Pontio Teg; a chyfraniad Cymru i ariannu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar addasu a lliniaru. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu ar gyfer costau staff, gwaith datblygu, hyfforddiant a theithio a chynhaliaeth.

<u>Arloesi ym maes Datgarboneiddio / Byw'n Glyfar</u>

Mae'n cynnwys cymorth technegol a dadansoddol ar gyfer datblygu atebion arloesol a system

gyfan i faterion seiliedig ar leoedd. Caiff y cyllid ei dargedu at seilwaith a thechnoleg aml-ffynhonnell ynni ac amlsectoraidd, prosesau a dulliau systemau sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol cyhoeddus, preifat ac academaidd.

Cynllun Masnachu Allyriadau a Phrisio Carbon

Cyllid i roi rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru ar waith fel rhan o Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys costau ar gyfer cynnal a chadw a datblygu'r system TG, gwaith ymchwil a darpariaeth gyfieithu. Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu ar gyfer costau staff sy'n gysylltiedig ag ehangu a gwella Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Os bydd cyllid yn caniatáu hynny, caiff gwaith ymchwil cynnar ei gomisiynu er mwyn deall ym mha sectorau y gallai signal prisio carbon fod yn ddefnyddiol i gyflawni ein targedau hirdymor ar gyfer lleihau carbon.

Rhaglen Newid Ymddygiad i Addasu i Newid Hinsawdd

Cyllid i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn Gweithredu ar Newid Hinsawdd – Strategaeth ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd (drwy Wythnos Hinsawdd Cymru a gweithdai Sgyrsiau am yr Hinsawdd) er mwyn eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r atebion polisi cywir, mewn ymchwil gymdeithasol i feithrin ein dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a'r cymhellion ar gyfer gwneud dewisiadau gwyrdd ac mewn gohebiaeth genedlaethol barhaus (ffocws digidol) a gwelliannau i hwb digidol gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru er mwyn annog gweithredu ar newid hinsawdd.

Gweithredu Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd

Aelodaeth o grwpiau sy'n cynrychioli gwladwriaethau a rhanbarthau is-genedlaethol, gan gynnwys Cynghrair Dan2, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i lais Cymru gael ei glywed ar y llwyfan rhyngwladol, gan gynnwys yn COP.

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| **BEL 2807 – Gweithredu ar Newid Hinsawdd** | 204 | 1,052- |
| **Diben y BEL** | | |

| |
|---|
| Mae cyfraniadau tuag at yr fuddsoddiad i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymgymryd ag effeithlonrwydd ynni, ac agosrwydd prosiectau ynni adnewyddadwy |

# Atodiad B – Dadansoddiad manwl o ddyrannu Drafft Cyllideb 2026-27 ar lefel BEL

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r addasiadau a wnaed i sailliniadau Cyllideb Terfynol 2025-26. Ar gyfer Adnoddau Ariannol (incwm) mae'r addasiadau'n ymwneud â dyrannu ailadroddus a wnaed yn ystod 2025-26 mewn perthynas â gwobr cyflog sector cyhoeddus a newidiadau mewn yswiriant cenedlaethol.

| ADNODDAU | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithred | BEL No. | Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025 | Addasiadau i'r Llinell Sylfaen 2026-27 | 2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | 2026-27 Newidiadau Sylfaenol Wedi'u Diwygio | Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025 | % newid |
| **Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol** | 2812 | Deddfwriaeth, Gweithredu, Llywodraethiant a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd | 1,977 | 7 | 1,984 | 907 | 2,891 | 46% |
| **Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol** | | | **1,977** | **7** | **1,984** | **907** | **2,891** | **46%** |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 4,170 | 0 | 4,170 | 80 | 4,250 | 2% |
| | 2807 | Buddsoddi i Arbed - Twf Gwyrdd | 200 | 0 | 200 | 4 | 204 | 2% |
| | 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 6,722 | 16 | 6,738 | 67 | 6,805 | 1% |
| | 3771 | Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 3,796 | 18 | 3,814 | 53 | 3,867 | 1% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | | | **14,888** | **34** | **14,922** | **204** | **15,126** | **1%** |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | 2230 | Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Gwastraff | 6,481 | (3,482) | 2,999 | 570 | 3,569 | 19% |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | | | **6,481** | **(3,482)** | **2,999** | **570** | **3,569** | **19%** |
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | 2195 | Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 500 | 0 | 500 | 10 | 510 | 2% |
| | 2825 | Bioamrywiaeth a Thystiolaeth | 11,520 | 5 | 11,525 | (454) | 11,071 | (4%) |
| | 2827 | Coedwigaeth | 6,436 | 0 | 6,436 | 105 | 6,541 | 2% |
| | 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 2,650 | 0 | 2,650 | 53 | 2,703 | 2% |
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | | | **21,106** | **5** | **21,111** | **(286)** | **20,825** | **(1%)** |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 100,324 | 3,163 | 103,487 | 1,848 | 105,335 | 2% |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | | | **100,324** | **3,163** | **103,487** | **1,848** | **105,335** | **2%** |
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 35,800 | 48 | 35,848 | 667 | 36,515 | 2% |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | | | **35,800** | **48** | **35,848** | **667** | **36,515** | **2%** |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 13,051 | 325 | 13,376 | 298 | 13,674 | 2% |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | | | **13,051** | **325** | **13,376** | **298** | **13,674** | **2%** |
| **Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 5,836 | (1,958) | 3,878 | 6,000 | 9,878 | 155% |
| **Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | | | **5,836** | **(1,958)** | **3,878** | **6,000** | **9,878** | **155%** |
| **Adfer, Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Morol** | 2875 | Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu | 2,361 | 3 | 2,364 | 48 | 2,412 | 2% |
| **Adfer, Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Morol** | | | **2,361** | **3** | **2,364** | **48** | **2,412** | **2%** |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | 2802 | Diogelu Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd a Rheoleiddio | 1,407 | 11 | 1,418 | 682 | 2,100 | 48% |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | | | **1,407** | **11** | **1,418** | **682** | **2,100** | **48%** |
| **NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG** | | | **203,231** | **(1,844)** | **201,387** | **10,938** | **212,325** | **5%** |

| CYFALAF | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithred** | **BEL No.** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2025-26 Chwefror 2025** | **Addasiadau i'r Llinell Sylfaen 2026-27** | **2026-27 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig** | **2026-27 Newidiadau Sylfaenol Wedi'u Diwygio** | **Cyllideb Ddrafft 2026-27 Hydref 2025** | **% newid** |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 12,000 | 0 | 12,000 | 0 | 12,000 | 0% |
| | 2807 | Buddsoddi i Arbed - Twf Gwyrdd | 1,052 | 0 | 1,052 | 0 | 1,052 | 0% |
| | 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 2,686 | 0 | 2,686 | 0 | 2,686 | 0% |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | | | **15,738** | **0** | **15,738** | **0** | **15,738** | **0%** |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | 2230 | Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Gwastraff | 31,521 | (1,500) | 30,021 | 3,478 | 33,499 | 12% |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion** | | | **31,521** | **(1,500)** | **30,021** | **3,478** | **33,499** | **12%** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | 2825 | Bioamrywiaeth a Thystiolaeth | 12,500 | 0 | 12,500 | (1,000) | 11,500 | (8%) |
| | 2827 | Coedwigaeth | 9,310 | 0 | 9,310 | 0 | 9,310 | 0% |
| | 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 12,564 | 0 | 12,564 | 0 | 12,564 | 0% |
| **Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | | | **34,374** | **0** | **34,374** | **(1,000)** | **33,374** | **(3%)** |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | 2802 | Diogelu Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd a Rheoleiddio | 0 | 0 | 0 | 5,200 | 5,200 | 100% |
| **Yr Amgylchedd a Rheoli Bywyd Gwyllt** | | | **0** | **0** | **0** | **5,200** | **5,200** | |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 27,806 | 0 | 27,806 | 0 | 27,806 | 0% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| **Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu** | | | **27,806** | **0** | **27,806** | **0** | **27,806** | |
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 41,853 | 0 | 41,853 | (4,200) | 37,653 | (10%) |
| **Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol** | | | **41,853** | **0** | **41,853** | **(4,200)** | **37,653** | **(10%)** |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 8,900 | 0 | 8,900 | 0 | 8,900 | 0% |
| **Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | | | **8,900** | **0** | **8,900** | **0** | **8,900** | **0%** |
| **Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 38,217 | (23,000) | 15,217 | 25,000 | 40,217 | 164% |
| **Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr** | | | **38,217** | **(23,000)** | **15,217** | **25,000** | **40,217** | **164%** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | | | **198,409** | **(24,500)** | **173,909** | **28,478** | **202,387** | **16%** |

| CYFALAF FT | | | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Action** | **BEL No.** | **BEL Description** | **Plans as per 2025-26 Final Budget February 2025** | **Baseline Changes for 2026-27** | **2026-27 Revised Baseline** | **2026-27 Revised Baseline Changes** | **2026-27 Draft Budget October 2025** | **% Change** |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru FT | 10,000 | (10,000) | 0 | 10,200 | 10,200 | N/A |
| **Datblygu a Gweithredu Polisi Newid Hinsawdd, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd** | | | **10,000** | **(10,000)** | **0** | **10,200** | **10,200** | **N/A** |
| CYFALAF | | | **10,000** | **(10,000)** | **0** | **10,200** | **10,200** | **N/A** |